OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2737

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009

## RHAN 10

TALIADAU

**Taliadau — dehongli**

**67.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "cadarnhad o bresenoldeb" ("*attendance confirmation*") yw—

(i) cadarnhad gan yr awdurdod academaidd fod y myfyriwr wedi ymrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd—

(aa) pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig am y tro cyntaf;

(bb) pan fo gan y myfyriwr anabledd; ac

(cc) pan fo'r myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs ond nad yw'n mynychu'r cwrs (ni waeth a yw'r rheswm am beidio â mynychu'n ymwneud â'i anabledd ai peidio);

(ii) cadarnhad gan yr awdurdod academaidd fod y myfyriwr wedi ymgyflwyno yn y sefydliad ac wedi dechrau mynychu'r cwrs—

(aa) pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig am y tro cyntaf;

(bb) pan na fo'r myfyriwr wedi cael ei statws fel myfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo i'r cwrs o gwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad; ac

(cc) pan na fo is-baragraff (i)(cc) yn gymwys;

(iii) cadarnhad gan yr awdurdod academaidd fod y myfyriwr wedi ymrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd—

(aa) pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig a hynny heb fod am y tro cyntaf; neu

(bb) pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig am y tro cyntaf ar ôl iddo gael ei statws fel myfyriwr cymwys wedi'i drosglwyddo i'r cwrs hwnnw o gwrs arall yn yr un sefydliad;

(b) ystyr "cyfnod talu" ("*payment period*") yw cyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn talu mewn perthynas ag ef y cymorth perthnasol o dan Ran 5 neu Ran 6 neu y byddai wedi talu'r cyfryw gymorth pe na bai cyfnod cymhwystra'r myfyriwr cymwys wedi dod i ben.